



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

SOFI: Methodoleg Ansawdd Bywyd AGGCC

Beth yw SOFI?

Adnodd arolygu yw SOFI (Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu) y gall arolygwyr AGGCC ei ddefnyddio i farnu sut fywyd mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n ei gael.

Cyflwynodd AGGCC y fethodoleg, a ddatblygwyd gan Brifysgol Bradford, yn 2012 fel rhan o'r rhaglen i foderneiddio ein harolygiadau. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio SOFI2, ail rifyn yr adnodd.

Pa rôl mae'n ei chwarae mewn arolygiadau?

Fel rhan o'n harolygiadau rydym yn edrych ar ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau'n bodloni safonau gofynnol.

Defnyddir SOFI pan nad yw pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gallu dweud sut ofal a thriniaeth maent yn eu cael, er enghraifft, pobl sydd â dementia neu blant ifanc. Mae'n darparu darlun bras a gellir ei ddefnyddio'n hyblyg i gofnodi sylwadau ar gyfer grŵp o unigolion ar sail un-i-un.

Defnyddir SOFI i wella gwybodaeth ac arbenigedd arolygwyr ble ceir pobl ag anawsterau gwybyddol neu gyfathrebu yn y gwasanaethau maent yn eu harolygu.

Sut mae SOFI yn gweithio yn ystod yr arolygiad?

Mae'r arolygwyr sy'n defnyddio SOFI yn arsylwi nifer o bobl sy'n derbyn gofal dros gyfnod o amser. Maent yn gwneud cofnod ar ôl pob 5 munud gan nodi pa mor fodlon yw'r person, a yw'n cymryd rhan mewn gweithgaredd, neu gyda phobl eraill, ac ansawdd unrhyw rymgweithio â'r staff.

Drwy arsylwi nifer o bobl dros gyfnod o amser, daw darlun clir i'r amlwg sy'n arwydd o ansawdd bywyd pobl a'r gofal maent yn ei dderbyn.

I ymgymryd â SOFI, mae'n rhaid i arolygwyr fynychu cwrs hyfforddi deuddydd.

Mae'r defnydd o ddulliau arsylwi eisoes wedi gwella ansawdd ein tystiolaeth a'n hadborth uniongyrchol i staff a rheolwyr. Maent hefyd yn allweddol er mwyn canfod cam-drin mewn sefydliadau.

Rhagor o wybodaeth

Mae gwybodaeth am sut mae SOFI yn cael ei ddefnyddio yn ystod arolygiadau ar gael i ddarparwyr gofal hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â cssiw@wales.gsi.gov.uk